

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Adran Cynllunio, Perfformiad a Trawsnewid
# Rheolwr Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad

Pecyn Gwybodaeth Recriwtio




# Croeso gan Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

Mae gwasanaethu ein cymunedau wrth wraidd popeth a wnawn, drwy sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau i bobl ac eiddo Gogledd Cymru. Rydym yn ymfalchïo yn y gwaith a wnawn, o ddyletswyddau gweithredol a rheng flaen i waith atal ac amddiffyn, yn ogystal â'r gwaith a wneir yn aml y tu ôl i'r llenni gan ein swyddogaethau cymorth corfforaethol, sy'n cyfrannu at sicrhau ein bod yn cadw ein cymunedau'n ddiogel.

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn heriol i'r Gwasanaethau Tân ac Achub ynghyd â'r holl wasanaethau cyhoeddus, a rhagwelir y bydd mwy o heriau i ddod dros y flwyddyn nesaf. Mae recriwtio'r bobl gywir yn allweddol i sicrhau y gall Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru barhau i gyflawni ein hamcanion strategol yn ogystal â'n dyletswyddau moesol, gan sicrhau ein bod yn parhau i fod yn driw i'n gwerthoedd craidd.

Bydd y Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol yn gweithio'n strategol ac yn weithredol ar hyd a lled y Gwasanaeth, gan gyfrannu eu gwybodaeth a'u profiad mewn cynllunio corfforaethol, perfformiad sefydliadol a pharhad busnes at y Gwasanaeth cyfan. Rydym yn chwilio am reolwr brwdfrydig a phrofiadol i ymuno â'r tîm a fydd yn gallu gosod cyfeiriad strategol er mwyn cyflawni canlyniadau mewn amgylchedd sy'n gynyddol heriol ac sy'n canolbwyntio ar berfformiad.

Mae'r pecyn gwybodaeth recriwtio yma'n rhoi sylfaen dda i chi o ran beth allwn ni ei gynnig fel Gwasanaeth, ond rydym yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych mewn trafodaeth anffurfiol i'ch helpu â'ch penderfyniad. Os ydych chi'n mwynhau her ac eisiau symud ymlaen yn eich gyrfa, hoffem glywed gennych.




# Pwy ydym ni

Yng Ngwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, ein pwrpas yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn rydym yn cyflogi mwy na 850 o staff ym maes gweithredol a rolau cefnogi.

Rydym yn helpu i amddiffyn ardal sy'n gorchuddio tua 2,400 milltir sgwâr a poblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl, yn ogystal a channoedd o miloedd o ymwelwyr sy'n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydyn ni'n mynd i oddeutu 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau heblaw tan megis gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn mynychu tua 2,000 o alwadau brys sy'n troi allan i fod yn alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith atal tan helaeth trwy ymweld a phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu a phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb gweithredol yn y cyfryngau, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.


Mae rhan arall o'n gwaith mewn rôl gorfodi diogelwch tan, felly rydyn ni'n ymweld busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol amdan yr adeiladau hynny'n cadw eu trefniadau diogelwch tan i fyny i afon.

Mae Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf. I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i wefan Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru.



# Ein Gwerthoedd Craidd



# Gogledd Cymru: Lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef

O fewn rhanbarth Gogledd Cymru mae Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych chi'n chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y DU, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd trawiadol i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae yma rywbeth i bawb. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol, gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys llinellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr, a theithiau cerdded mwy hamddenol i ddarganfod trefi a chefn gwlad yr ardal neu i ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Mae Gogledd Cymru yn agos at natur ac yn cynnig digon o le awyr agored, ond mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr Gogledd-orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae'r cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y DU, gyda threnau uniongyrchol yn mynd i Lundain (o fewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Gan ddefnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, o bysgod newydd eu dal i gig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, mae yma ddigonedd o leoedd bwyta at ddant pawb. Mae'r ardal yn cynnig bwytai bwyd cain, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cymru'n angerddol am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae cystadlaethau cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddyd yn digwydd yn flynyddol – sef yr Eisteddfodau. Gwyliau diwylliannol ydyn nhw sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n agored i bawb ac felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i'w mynychu a'i mwynhau. Bydd pobl o bob oed a gallu, a dysgwyr Cymraeg, yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gydag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn cael ei chynnal bob blwyddyn ar ddechrau Awst. Mae hon yn dod â phobl o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a chelfyddydau mewn un lle.



# Y Rôl


Fel rôl reoli o fewn y Gwasanaeth, bydd y Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol yn cyflwyno eu gwybodaeth a'u profiad o weithio'n strategol ac yn weithredol ar draws sefydliad ym maes cynllunio busnes, perfformiad sefydliadol, parhad busnes a rheoli prosiectau er mwyn cyfrannu at berfformiad y Gwasanaeth cyfan. Rhaid i chi feddu ar lefel uchel o sgiliau arloesol a rhyngbersonol a bod yn unigolyn rhagweithiol a hunanysgogol i ddiwallu'r heriau o weithio mewn amgylchedd busnes cymhleth a newidiol.

Yr Adran Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod y Gwasanaeth yn perfformio'n llwyddiannus yn erbyn ei gynlluniau a'i amcanion strategol, gan gefnogi'r broses o gynhyrchu cynlluniau gwella strategol, asesiadau perfformiad ac adroddiadau monitro. Mae'r tîm yn darparu gwybodaeth adrodd allweddol gan gadw'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau tân a chyhoeddus lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni ein nodau a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth, ac yn hyrwyddo gwelliant parhaus drwyddi draw.

Gan fod yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth perfformiad o ansawdd uchel i gefnogi strategaethau gwella a lleihau risg y Gwasanaeth, bydd gennych wybodaeth a phrofiad cadarn o reoli fframweithiau perfformiad sefydliadol ac elfennau cysylltiedig o sicrhau gwelliant busnes parhaus.

Mae sgiliau cyfathrebu cryf yn hanfodol yn y rôl hon a bydd gennych y gallu i ymgysylltu'n gadarnhaol â staff mewnol a rhanddeiliaid allanol i feithrin perthnasoedd effeithiol i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y Gwasanaeth. Gan gydweithio ag asiantaethau partner, sefydliadau llywodraeth leol eraill a diwydiannau preifat, byddwch yn cyfrannu at berthnasoedd gwaith ac yn dylanwadu arnynt i sicrhau canlyniadau buddiol i'r Gwasanaeth.

Fel y Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol, byddwch yn arwain y tîm i ddatblygu'r gweithgareddau cynllunio a pherfformiad yn barhaus, gan ddarparu cyfeiriad, cyngor, cefnogaeth ac arweiniad ymarferol pan fo angen. Felly, byddwch yn dod â'r profiad o reoli ac arwain tîm effeithiol sy'n perfformio i safon uchel gyda chi, yn ogystal â'r gallu i ddeall a dehongli materion cymhleth a'u troi'n gipolwg ac amcanion gwella perthnasol i'r tîm a'r sefydliad ehangach.



# Beth allwn gynnig i chi

## Tâl

Gradd: Gradd 11

Cyflog Sylfaenol: £49,764 - £52,805

## Oriau Gwaith

Mae'r sefyllfa hon yn seiliedig ar weithio 37 awr yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

## Lleoliad Gwaith

Prif leoliad y tîm yw Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl. Efallai y bydd gofyn i chi fynychu gwahanol leoliadau'r gwasanaeth tân, felly gall fod angen i chi deithio i safleoedd eraill o fewn Gogledd Cymru neu yn y DU yn ehangach.

Rydym hefyd yn cynnig llawer iawn o hyblygrwydd ac yn ceisio cefnogi staff i gadw cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u bywyd yn y cartref cymaint â phosibl. Mae gennym bolisi gweithio ystwyth i hwyluso gweithi'n rhithiol ac yn y cartref lle bo'n ymarferol ar gyfer y rôl. Gellir trafod hyn ymhellach yn ystod y cyfweliad.

## Manteision Cyflogaeth

- Hawl am Wyliau Blynyddol hael, yn cychwyn ar 25 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal a gwyliau cenedlaethol
- Cynllun amser Fflecsi sy'n caniatáu i staff weithio'n hyblyg
- Darperir gwisg Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad i gyfraniad gweithwyr o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Byddwn yn cynnig hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i ddatblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, yn cynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithiwr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapyddion corfforol a mynediad i ampfeydd y Gwasanaeth
- Ystod o fuddion eraill megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad i bris gostyngol mewn cannoedd o siopau, hamdden a darparwyr gwasanaethau.



# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd** | Rheolwr Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad |
| **Adran** | Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid |
| **Yn Atebol i** | Gorsaf Tân Cymunedol y Rhyl |
| **Lleoliad** | NWFRS 11 |

## Pwrspas y Swydd yn Gyffredinol

Mae hon yn rôl rheolwr o fewn y Gwasanaeth a bydd deiliad y swydd yn gweithio'n strategol ac yn weithredol ar draws holl adrannau'r sefydliad. Bydd yn rhoi arweiniad ac yn darparu arbenigedd ym maes cynllunio corfforaethol, Perfformiad, Parhad Busnes Rheoli prosiectau.

Bydd deiliad y swydd yn rhoi cyngor ac arweiniad proffesiynol ym meysydd adrodd corfforaethol, risg a rheoli perfformiad i lywio'r gwaith o ddatblygu'r blaenoriaethau a'r cynlluniau strategol.

Gan rheoli'r Tîm Cynllunio Corfforaethol a Sicrwydd, bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am ddatblygu, monitro ac adrodd ar gynlluniau statudol, strategaethau a chynlluniau gwasanaeth. Bydd yn rhoi cyngor arbenigol ar gynllunio adrannol, rheoli perfformiad a risg, gan gynnwys y defnydd o ddadansoddi data i sicrhau bod y Gwasanaeth yn effeithiol ac effeithlon.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am Fframwaith Rheoli Prosiectau'r Gwasanaeth, gan sicrhau llywodraethu, darparu a gwerthuso priodol mewn perthynas â phrosiectau a rhaglenni gwelliant y Gwasanaeth.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am reoli parhad busnes y Gwasanaeth, gan wneud yn siŵr bod cynllunio a chynlluniau'n sicrhau bod y Gwasanaeth wedi'i baratoi'n dda ar gyfer risgiau parhad busnes rhagweladwy.

Drwy ddarparu arweinyddiaeth glir, weladwy a dibynadwy bydd deiliad y swydd yn meithrin, cymell a chefnogi diwylliant o welliant parhaus a dysgu sefydliadol ac yn sicrhau bod y cynlluniau statudol yn cael eu hadlewyrchu mewn amcanion adrannol.

## Y Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Cyfrannu at gyfeiriad strategol y Gwasanaeth drwy roi cyngor ac arweiniad arbenigol yn ymwneud â chynllunio corfforaethol, perfformiad, parhad busnes a rheoli prosiectau.  Tîm amlddisgyblaethol yw hwn sy'n cynnwys prif swyddogion a phenaethiaid adrannau.
2. Bydd deiliad y swydd yn arwain y gwaith o ddatblygu, adolygu ac adrodd ar y cynlluniau statudol ac ymateb i gymunedau a demograffeg newidiol, a hefyd risgiau a bygythiadau lleol a chenedlaethol.
3. Gan arwain ar gynllunio strategol, rheoli risg a phrosesau perfformiad, bydd deiliad y swydd yn rhoi cyngor ac arweiniad ar y strategaethau tu cefn iddynt a chynlluniau adrannol ac ardal. Bydd hyn yn cynnwys darparu mecanweithiau effeithiol i gadarnhau'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno cynlluniau ar lefel strategol ac adrannol. Sicrhau bod fframwaith cydlynol sy'n cefnogi gwelliant ac yn amlygu'r prif risgiau strategol i'w hystyried yn cael ei gymhwyso ar draws y Gwasanaeth.
4. Sicrhau bod nodau ac amcanion y Tîm Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad yn cael eu harwain, eu rheoli a'u monitro'n effeithiol. Datblygu cynllun blynyddol ar gyfer y tîm sy'n cefnogi'r gwaith o gadw at derfynau amser adroddiadau statudol, a darparu strategaethau a chynlluniau'r gwasanaeth.
5. Arwain ar ddatblygu a chyflwyno trefniadau rheoli perfformiad y Gwasanaeth gan gynnwys dadansoddi data ac adrodd am berfformiad. Rhoi cyngor a chanllawiau i reolwyr ar draws y Gwasanaeth i sicrhau trefniadau rheoli perfformiad gan gynnwys y data a'r wybodaeth gywir,

berthnasol ac amserol er mwyn helpu i wneud penderfyniadau.

6. Arwain ar y gwaith o baratoi adroddiadau o ansawdd uchel a'u cyflwyno, gan gynnwys dadansoddi a sicrwydd gan roi argymhellion ar gyfer gwelliannau lle bo'n briodol yng nghyfarfodydd mewnol y Gwasanaeth a chyfarfodydd ffurfiol yr Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau.

7. Arwain ar ddatblygu a rheoli cofrestrau risg sefydliadol gan ddefnyddio methodoleg dadansoddi risg i sicrhau bod y Gwasanaeth yn nodi, asesu, cynllunio ar gyfer a lliniaru risgiau corfforaethol yn effeithiol ac yn cymryd camau rheoli priodol. Bydd deiliad y swydd yn monitro ac yn cynghori ar weithgareddau rheoli risg corfforaethol, ac yn goruchwylio Cofrestr a Pholisi Risg Corfforaethol y Gwasanaeth, gan sicrhau bod y gofrestr yn nodi ac yn asesu'n gywir y prif risgiau corfforaethol ac yn cynnwys camau lliniaru a rheoli effeithiol.

8. Bod yn gyfrifol am gynnal ymarferion sganio'r gorwel, gan nodi dylanwadau, tueddiadau ac effeithiau posibl ar gyfer y Gwasanaeth mewn perthynas â chynllunio, sicrwydd a risg gorfforaethol. Gwneud argymhellion ar sut i wella'r amgylchedd gweithredu a'r system reoli ar gyfer Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth.

9. Gweithio gyda'r Tîm Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad i nodi a chyflwyno gwelliannau i'r systemau, prosesau a pholisïau mewn perthynas â chynllunio a sicrwydd i wella gweithio ystwyth, arbedion, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

10. Sicrhau bod ganddynt wybodaeth fanwl barhaus am ddatblygiadau o fewn y Gwasanaeth, y sector ehangach, deddfwriaeth berthnasol ac arferion gorau cenedlaethol i sicrhau bod y Tîm Cynllunio Corfforaethol a Sicrwydd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ffactorau a risgiau allanol cyfredol, gan nodi'r prif ffyrdd y gallent effeithio ar y Gwasanaeth a'r Awdurdod Tân ac Achub. Gwneud argymhellion ar gyfer newid a chynyddu'r cyfleoedd i gydweithredu a chynnal gwaith ar y cyd.

11. Gweithio'n rhagweithiol ar draws y Gwasanaeth i sicrhau bod y Tîm Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad yn mabwysiadu dull partneriaid busnes, gan ddeall gwaith y Gwasanaeth a chefnogi rheolwyr adran ar agweddau cynllunio a sicrwydd eu swyddogaethau.

12. Datblygu a gwella'r trefniadau ar gyfer cydweithio â rhanddeiliaid allanol o wahanol sefydliadau a grwpiau, gan weithredu fel cynrychiolydd y Gwasanaeth yn ôl y gofyn, i wella perfformiad y Gwasanaeth yn barhaus.

13. Datblygu a chynnal strategaeth hyfforddi a chynllun gweithredu'r Gwasanaeth o ran rheoli perfformiad a dadansoddi risg.

14. Gweithio'n rhagweithiol ar draws y Gwasanaeth i sicrhau bod y Tîm Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol yn cynorthwyo Rheolwyr Prosiect i ddarparu rhaglenni a phrosiectau gwelliant ar draws y sefydliad.

15. Gweithio gyda'r Adran Gyllid i sicrhau ei bod yn cadw at brosesau gosod cyllidebau, a'i chynorthwyo gyda cheisiadau am gyllid allanol. Bod yn gyfrifol ar y cyd am gyllideb gwariant ac adnoddau ariannol, gan gyfrannu at y gwaith o bennu cyllidebau.

16. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am reoli parhad busnes y Gwasanaeth, gan wneud yn siŵr bod cynllunio a chynlluniau yn sicrhau bod y Gwasanaeth wedi'i baratoi'n dda ar gyfer risgiau parhad busnes rhagweladwy.

## Cyfrifoldebau Goruchwylio

Tîm Cynllunio a Perfformiad

## Cyfrifoldebau Ariannol

Cyfrifoldeb dros reoli cyllidebau cyflogau'r Tîm Cynllunio Corfforaethol a Sicrwydd a chostau cysylltiedig nad ydynt yn ymwneud â chyflog.

Rheoli a monitro'r CLG a'r trefniadau cytundebol gyda'r partneriaid a'r cyflenwyr sy'n ymwneud â darparu prosiectau, datrysiadau a / neu Systemau Gwybodaeth Rheoli perthnasol gan gynnwys yr agweddau ariannol.

Rheoli a bod yn gyfrifol am unrhyw gyllideb prosiect y cytunwyd arni ar gyfer datblygiadau neu welliannau newydd.

Awdurdod i wneud Archebion Prynu a Chymeradwyo i lefelau y cytunwyd arnynt.

## Cysylltiadau y Tu Allan i'w Hadran eu Hunain

Prif Swyddogion, Penaethiaid Adran, cydweithwyr ar draws y sector Tân ac Achub ac yn cynnwys Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân, cydweithwyr o bartner sefydliadau sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru, swyddogion Llywodraeth Cymru.

## Gofynion Iaith

Sgiliau Cymraeg – Lefel 2 (i'w gyflawni o fewn 12 mis o ymgymryd â'r swydd)

## Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Gwiriadau DBS safonol

## Hyfforddiant Gorfodol

Dim

## Amodau Gwaith

Gweithio Ystwyth gyda'r gallu i weithio gartref fel y gwelir ei fod yn addas yn unol â pholisi'r Gwasanaeth ac yn amodol ar gytundeb y Dirprwy Brif Swyddog Tân.

Dan do mewn amgylchedd swyddfa.



# Gofynion Person

| | |
|---|---|
| **Cymwysterau / Gallu / Profiad** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Gradd berthnasol a/neu brofiad proffesiynol cyfatebol |
| | Profiad o ran cynllunio busnes, rheoli risg a rheoli perfformiad |
| | Profiad o arwain a rheoli rhaglenni neu brosiectau llwyddiannus |
| | Profiad mewn rheoli parhad busnes |
| | Gallu dangos ymrwymiad personol i ddysgu, datblygu a gwella |
| | Dealltwriaeth o strwythur llywodraethu'r sector Tân ac Achub yng Nghymru a'r fframwaith adrodd statudol |
| | Profiad o weithio a dylanwadu ar lefel uwch gyda sgiliau cyfathrebu rhagorol |
| | Y gallu i ysgrifennu adroddiadau addas ar gyfer cynulleidfa eang |
| | Y gallu i fodelu ymddygiad cadarnhaol yn unol â Gwerthoedd Craidd GTAGC, gan gynnwys hyrwyddo amgylchedd gweithio amrywiol a chynhwysol |
| | Sgiliau arwain a rheoli rhagorol gan gynnwys ysgogi a hyfforddi staff |
| | Hanes llwyddiannus o gymryd perchnogaeth ac arwain tîm ac/neu unigolion drwy gyfnod o newid sefydliadol i addasu, cadarnhau dealltwriaeth, gweithredu a gwreiddio |
| | Sgiliau trefnu rhagorol a'r gallu i flaenoriaethu, cadw at derfynau amser a dirprwyo'n effeithiol |
| | Defnyddio sgiliau dadansoddi a barn ar lefel uchel gan gynnwys deall a chymhwyso data ystadegol a rhifiadol cymhleth |
| | Sgiliau technoleg gwybodaeth da a gwybodaeth weithredol gadarn o Microsoft Office |
| | Y gallu i reoli eu hunain a'r hyder i ddylanwadu ar ac ennyn diddordeb eraill i allu gyrru a chyflawni newid |
| | Sgiliau rhyngbersonol da gan gynnwys y gallu i feithrin perthynas gref â rhanddeiliaid a chynnal ymagwedd gytbwys |
| | Y gallu i gymryd cyfrifoldeb dros gyflwyno negeseuon y sefydliad yn gadarnhaol, hyd yn oed o dan amgylchiadau anodd |
| | Hold a full current driving licence and have the ability to travel across North Wales to carry out work (e.g. attend meetings/other locations |

| | |
|---|---|
| **Cymwysterau / Gallu / Profiad** | **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy’n bodloni’r holl feini prawf hanfodol |
| | Dangos y gallu i ddatrys problemau a dod o hyd i syniadau newydd ac arloesol a gweithredu atebion i broblemau |
| | Profiad o ystyried goblygiadau eu penderfyniadau i adnoddau a chyllidebau, a'r gallu i addasu eu dull gweithredu i reoli cyllidebau i ymateb i hynny |
| | Profiad o werthuso effaith newidiadau ar ddarpariaeth y gwasanaethau er mwyn dysgu gwersi a rhoi’r hyn a ddysgwyd ar waith |
| | Ymwybyddiaeth o flaenoriaethau sefydliadol a gwleidyddol ehangach o fewn lleoliad sefydliadol, gan gysylltu a thrafod gyda chynrychiolwyr gwleidyddol lleol, rhanbarthol neu genedlaethol |
| | Hanes o chwilio am gyfleoedd i ddatblygu pobl, defnyddio eu sgiliau a'u cryfderau amrywiol a chynllunio'n rhagweithiol ar gyfer olyniaeth |

* Bydd tystiolaeth o gymwysterau yn cael cais a’u gwirio cyn cadarnhau apwyntiad

**Sylwer: Er mwyn cael eich rhoi ar restr fer y swydd hon, bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni’r holl feini prawf hanfodol.**



# Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym yn credu y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni wedi cymryd y mater o iaith o ddifrif dros flynyddoedd lawer. Drwy gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac i fodloni disgwyliadau'r gymuned leol, rydym yn cydnabod y manteision cadarnhaol i'r gwasanaeth hefyd o gynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae achub bywydau a lleihau risg wrth wraidd ein cenhadaeth – ac mae iaith yn hanfodol i'w lwyddiant.

Mae gofyniad Cymraeg y swydd hon yn lefel 2 ac mae'r sgiliau gofynnol wedi'u nodi isod.

| Maes Sgil | Gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg |
|---|---|
| **Gwrando / siarad** | ▪ Ddeall rhan helaeth o sgwrs yn y gwaith.<br>▪ Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'r gwaith a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall atebion.<br>▪ Rhoi barn mewn modd cyfyngedig, cyn belled â bod y testun yn gyfarwydd.<br>▪ Deall cyfarwyddiadau pan fo iaith syml yn cael ei defnyddio. |

Bydd asesiad Cymraeg byr yn cael ei gynnal ar ddechrau cyfnod y swydd a bydd ymgeiswyr nad ydynt eisoes yn siarad Cymraeg i lefel 2 yn cael cyfnod o 12 mis o'u penodi i ennill hyn.

Rydyn ni'n cydnabod bod dysgu iaith yn cymryd amser ac ymrwymiad a bod y gofyniad hwn yn ychwanegol at ddysgu rôl newydd a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gefnogi i gyflawni'r lefel gofynnol.



# Sut i ymgeisio

Mae'r ffurflenni cais i'w gweld ar wefan y Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru ac fe ddylid dychwelyd y Ffurflenni Cais ar e-bost i recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru neu drwy gysylltu a'r Tim Recriwtio ar 01745 535281.

Gofynnir i chi beidio danfon eich CV gyda'r Ffurflen Gais gan mai dim ond y wybodaeth a roddir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei ddefnyddio wrth greu rhestr fer.

Pan fyddwch yn cwblhau eich cais, gofynnir i chi ymgyfarwyddo gyda'r Disgrifiad Swydd a'r Manylion Person yn y pecyn gwybodaeth yma fel eich bod yn deall y gofynion ynglŷn a chymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol sydd ym manyleb y person er mwyn cyrraedd y rhestr fer yn y cam nesaf. Mae eich cyfle o fod ar y rhestr fer am gyfweliad yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwch ar eich ffurflen gais.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni mewn da bryd os hoffech chi i ni wneud unrhyw addasiadau rhesymol i chi.

Sicrhewch eich bod yn anfon eich cais cyn y dyddiad cau gan nad yw ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Os oes ydych yn cael unrhyw broblem cael gafael ar y ffurflen gais neu ei chwblhau, cysylltwch â'r tîm Recriwtio: recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru neu ffoniwch 01745 535 281.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn a'r rôl hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu a Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Trawsnewid ar 07920 084603.

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau | **12:00 ar 30/06/2025** |

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service